

Cartrefi Cymunedol Cymru | Community Housing Cymru

# Amser i Weithredu:

## Cefnogi tenantiaid tai cymdeithasol drwy'r argyfwng costau byw

# Cyflwyniad

Mae tenantiaid tai cymdeithasol yng Nghymru ymhlith y rhai a gafodd eu taro waethaf gan yr argyfwng costau byw. Wrth i brisiau bwyd ac ynni barhau i godi drwy gydol y flwyddyn, bydd misoedd y gaeaf yn achosi risg enfawr i'w hiechyd a'u sefydlogrwydd ariannol.

Yn eu hastudiaeth ciplun ar farn y cyhoedd yng nghanol mis Medi 2022[1], dywedodd yr ONS fod 91% o bobl yn y Deyrnas Unedig wedi dweud fod eu costau byw wedi cynyddu o gymharu â blwyddyn yn ôl. Roeddent yn priodoli'r cynnydd hwn i:

- Prisiau bwyd (95%)
- Eu biliau nwy neu drydan (73%)
- Pris tanwydd (51%)

Canfu'r astudiaeth fod 55% o aelwydydd yng Nghymru wedi gostwng eu defnydd o ynni.

**91%**

*o bobl yn y Deyrnas Unedig wedi dweud fod eu costau byw wedi cynyddu o gymharu â blwyddyn yn ôl*

# Arolwg costau byw cymdeithasau tai

Mae cymdeithasau tai yng Nghymru yn cymryd eu rôl o gefnogi tenantiaid drwy gyfnodau ariannol heriol yn ddifrifol iawn, a gwnânt bopeth a fedrant i sicrhau fod pobl yn byw mewn cartrefi diogel, addas, cysurus a fforddiadwy.

Gwnaethom gyhoeddi arolwg i gymdeithasau tai ym mis Medi 2022 i ofyn am wybodaeth ar gynnydd yn y galw am a) cyngor a chymorth ariannol a; a b) cymorth ariannol uniongyrchol drwy grantiau caledi cymdeithasau tai.

# Cymorth llesiant

O fewn y 16 cymdeithas tai a ymatebodd i'n harolwg, mae budd-dal tai neu Gredyd Cynhwysol yn talu am ran neu gyfan o rent 75% o denantiaid. Fodd bynnag, hyd yn oed cyn y wasgfa bresennol ar

*1. Public opinions and social trends, Great Britain, 14th–25th September 2022, Office of National Statistics*

brisiau, roedd tenantiaid yn dweud nad oedd Credyd Cynhwysol yn ddigon iddynt fforddio costau eraill.

Pan gafodd y taliad chwyddo o £20 i Gredyd Cynhwysol ei ddileu y llynedd, rhybuddiodd llawer o tenantiaid eu cymdeithasau tai[2]:

- Na fyddent yn medru cael digon o fwyd ac y byddai angen iddynt ddefnyddio banciau bwyd
- Na fyddent yn medru prynu dillad na hanfodion
- Na fyddent yn medru fforddio cludiant i'r ysgol, gwaith, yr ysbyty neu'r siopau
- Na fedrent fforddio cael cysylltiad rhyngrwyd a ffôn symudol.

# Cynnydd yn y galw am gyngor a chymorth ariannol

Mae llawer o gymdeithasau tai yn darparu gwasanaethau gwytnwch ariannol fel rhan o'u busnes craidd. Gall pob tenant gael mynediad i'r gwasanaethau hyn ar unrhyw amser yn ystod eu tenantiaeth ond mae'n achos pryder fod galw uchel iawn amdanynt ar hyn o bryd wrth i denantiaid ofyn am fwy o gyngor nag arfer.

Canfu arolwg diweddar o dros 5,000 o denantiaid tai cymdeithasol ar draws y Deyrnas Unedig mai cael help gan ddarparydd tai cymdeithasol oedd yr ail gam mwyaf poblogaidd a gymerai tenantiaid ar ôl cysylltu â Cyngor ar Bopeth. Roedd hefyd yn fwy cyffredin na chael help gan "deulu a ffrindiau".

O fewn y 16 cymdeithas tai a ymatebodd i'n harolwg, cafodd 1,299 tenant eu hatgyfeirio ar gyfer cymorth ariannol rhwng mis Awst a mis Medi 2022. Cafodd y cymorth hwn ei ddarparu yn fewnol a gan bartneriaid allanol.

Gwelodd un gymdeithas tai nifer gyfartalog yr atgyfeiriadau bob mis yn cynyddu o 172 i 191. Caiff y tueddiad hwn ei weld ar draws y sector gyda nifer fawr o gymdeithasau yn dweud y bu cynnydd.

Mae staff rheng-flaen cymdeithasau tai sy'n rhoi cyngor a chymorth ariannol yn gweld drostynt eu hunain yr heriau a'r dewisiadau amhosibl y mae'n rhaid i denantiaid eu gwneud wrth i'r argyfwng costau byw daro gartref. Maent yn gweithio ochr yn ochr

*Cafodd* **1,299** *tenant eu hatgyfeirio ar gyfer cymorth ariannol rhwng mis Awst a mis Medi 2022*

*2. Adroddiad CHC ar Daliad Chwyddo Credyd Cynhwysol: Llawer i'w golli, Cartrefi Cymunedol Cymru, Awst 2021*

gyda thenantiaid i gwblhau gwaith papur i gael mynediad i fudd-daliadau a grantiau, canfod talebau gofal bwyd ac arian ar gyfer dillad. Maent hefyd yn gweithio gyda thenantiaid i geisio gostwng eu biliau ynni a chanfod cronfeydd ymddiriedolaeth elusennol gan gyflenwyr ynni. Er enghraifft, mae rhai aelodau yng Ngogledd Cymru yn cydweithio gyda llywodraeth leol i ddarparu 'Wardeiniaid Ynni' sy'n cynnig cyngor i denantiaid ar newid cyflenwyr ynni a thariffau.

Yn ogystal â helpu tenantiaid yn uniongyrchol gyda chynyddu incwm, mae cymdeithasau tai yn helpu tenantiaid i ddod drwy'r argyfwng a chreu gwytnwch ariannol ar gyfer y dyfodol drwy gynyddu eu sgiliau cyflogadwyedd drwy sesiynau un i un, helpu gyda chwilio am swyddi, ceisiadau neu baratoi am gyfweliadau, a hyd yn oed arian ar gyfer teithio neu ddillad.

Fodd bynnag, mae llawer o gymdeithasau tai yn awr yn dweud eu bod yn cyrraedd terfyn yr hyn y gallant wneud i helpu. Ymchwiliwyd pob opsiwn ar gyfer tenantiaid ac ni fedrir dynodi unrhyw opsiynau pellach na chynnig cymorth.

*Cynnydd o* **69%** *yn y cronfeydd caledi ar gael i denantiaid*

# Cyllid caledi cymdeithasau tai

Dangosydd arall o'r anawsterau cynyddol sy'n wynebu pobl gyda chostau bwyd a biliau ynni yw'r cynnydd yn y galw am gronfeydd caledi cymdeithasau tai. Mae hyn er bod cymdeithasau tai yn sicrhau cyllid ychwanegol sydd â chyfyngiad amser arno i hybu eu gwasanaethau cyngor ynni a chymorth llesiant cymunedol.

### Cynnydd mewn cronfeydd caledi

Mae cronfa caledi gan 81% o'r cymdeithasau tai a ymatebodd i'n harolwg (13 allan o 16) ar gyfer blwyddyn ariannol 2022/23 sy'n darparu arian yn uniongyrchol i denantiaid. Mae hyn yn gynnydd ar 2021/22 pan mai dim ond 69% o'r cymdeithasau tai a arolygwyd oedd â chronfa caledi ar gael.

Mae Tabl 1 yn dangos cyfanswm y cronfeydd caledi oedd ar gael i denantiaid ym mhob blwyddyn ariannol.

| | 2021/22 (£) | 2022/23 (£) |
|---|---|---|
| **Cyfanswm cronfa caledi ar gael i denantiaid** | 402,292 | 524,389 |

Ac eithrio'r cymdeithasau tai na wnaeth ddarparu cronfa galedi ym mhob blwyddyn, y gronfa gyfartalog a ddarparwyd gan bob cymdeithas tai yng Nghymru oedd:

- 2021/22 – £36,572
- 2022/23 – £40,337

# Effaith ar gymdeithasau tai

Mae peidio medru gwneud mwy i'w tenantiaid yn ddigalon i staff, sy'n aml yn gweithio i gefnogi eu cymunedau lleol eu hunain, ac mewn llawer achos mae'n ddigynsail.

Nid yw cymdeithasau tai fel sefydliadau y tu allan i'r argyfwng costau byw. Maent hwythau hefyd yn wynebu cynnydd mewn costau tanwydd ac ynni, sy'n rhaid iddynt eu talu o bot arian y mae pen draw iddo. Un maes o gonsyrn neilltuol yw effaith y cynnydd mawr mewn costau ynni ar wasanaethau gofal a chymorth cymdeithasau tai. Mae gwres dibynadwy yn hanfodol ar gyfer iechyd a llesiant y grŵp hwn o denantiaid, ac mae'r lleoliadau hyn yn defnyddio mwy o ynni nag eraill. Er y croesewir y pecyn cymorth ynni annomestig a gyhoeddwyd hyd yma, efallai na fydd hyn yn ddigon i wrthbwyso'r cynnydd mawr mewn costau. Bydd darparwyr hefyd angen llawer mwy o sicrwydd na'r cyfnod o chwe mis mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi ymrwymo iddo hyd yma.

Mae cymdeithasau tai yn gwybod na fedrant ddatrys yr argyfwng costau byw ar gyfer eu tenantiaid ar eu pennau eu hunain. Rydyn ni fel sector yn gweithio gyda'n cymunedau a'n partneriaid yn y sector tai, y sector gwirfoddol a'r sector cyhoeddus i atal yr argyfwng rhag dod yn drychineb.

Ar y cam hwn, mae rhai camau hollbwysig y mae angen i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Unedig eu cymryd.

*"Nid yw cymdeit-hasau tai fel sefydliadau y tu allan i'r argyfwng costau byw"*

### Argymhellion CHC i atal caledi ariannol mwy difrifol byth ar gyfer tenantiaid cymdeithasau tai Cymru

Ar gyfer tenantiaid cymdeithasau tai, caiff budd-dal tai ac elfen tai y Credyd Cynhwysol eu cyfrifo yn seiliedig ar yr union rent cymwys a gaiff ei dalu. Fel canlyniad, ar gyfer y rhai sy'n gymwys am gymorth llawn, byddai'r swm a dderbyniant mewn cymorth tai yn codi i lenwi unrhyw gynnydd mewn rhent.

Yn anffodus, fodd bynnag, dengys y dystiolaeth yn y papur gwybodaeth hwn nad yw lwfans safonol y Credyd Cynhwysol – a gynlluniwyd i helpu pobl ar incwm isel i dalu am eu hanfodion dydd i ddydd – yn ddigon i ddiogelu pobl rhag tlodi bwyd neu danwydd.

## Argymhellion i Lywodraeth y Deyrnas Unedig

1. **Gweithredu i sicrhau fod y system llesiant yn rhoi rhwyd ddiogelwch ddigonol fel y gall tenantiaid tai cymdeithasol Cymru fforddio talu am fwyd a hanfodion sylfaenol eraill drwy:**
   a. *Cynyddu budd-daliadau yn unol â chwyddiant i dalu am gostau byw hanfodol:* Er mwyn sicrhau na chaiff y cymorth hwn ei ostwng ymhellach, mae'n hanfodol fod Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn cadw ei ymrwymiad i godi budd-daliadau yn unol â chwyddiant. Mae dal budd-daliadau dan chwyddiant yn doriad mewn gwir dermau. Dylai Trysorlys EF gadarnhau cyn gynted ag sydd modd y bydd budd-daliadau yn cynyddu gyda chwyddiant ym mis Ebrill 2023.
   b. *Ymchwilio opsiynau i gynyddu lwfans Safonol Credyd Cynhwysol fel ei fod yn rhoi rhwyd ddiogelwch ariannol effeithlon:* Ni fyddai gwneud dim ond cynyddu budd-daliadau yn unol â chwyddiant yn ateb y diffyg mewn digonolrwydd sy'n bodoli o fewn lwfans safonol y Credyd Cynhwysol. Fel y nodir uchod, nid yw lefelau presennol cymorth Credyd Cynhwysol ar gyfer costau heb fod yn gysylltiedig â thai yn ddigon i roi sylfaen gadarn mae tenantiaid tai cymdeithasol ei angen i geisio cynyddu eu gwytnwch ariannol.

      Dylai Trysorlys EF ystyried opsiynau i gynyddu'r lwfans safonol, er mwyn atgynhyrchu'r gwelliannau i lesiant preswylwyr a'u gallu i geisio gwaith a gafodd ei ddangos yn ystod y cyfnod chwyddo gan £20.
   c. *Codi'r cap ar fudd-daliadau:* Cynlluniwyd y Credyd Cynhwysol i helpu pobl i dalu am fwyd a hanfodion eraill nad yw eu hincwm isel yn caniatáu iddynt dalu amdanynt. Cynhelir proses asesu drylwyr i ddeall y cymorth y maent ei angen i gadw ar ben pethau'n ariannol.

      Fodd bynnag, unwaith y sefydlwyd hyn, cafodd cymorth rhai aelwydydd ei dorri i sicrhau nad yw'n fwy na'r 'cap budd-dal' un maint i bawb. Y cap hwn yw £20,000 y flwyddyn ar gyfer cwpl neu riant sengl y tu allan i Lundain a £13,400 y flwyddyn ar gyfer oedolyn sengl.

      Pan mae prisiau mor uchel, nid yw'n gwneud unrhyw synnwyr i ostwng faint o arian y mae pobl yn ei dderbyn i lai na'r swm yr aseswyd eu bod ei angen i fyw arno. Argymhellwn fod Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn codi'r cap budd-daliadau yn awr i liniaru pwysau ar aelwydydd. Dylai hyn gael ei ddilyn gan adolygiad o lwyddiant y polisi i ystyried os y dylai byth gael ei ailgyflwyno.

> *"Mae'n hanfodol fod Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn cadw ei ymrwymiad i godi budd-daliadau yn unol â chwyddiant"*

2. **Gostwng pwysau costau ynni ar gyfer tenantiaid tai cymdeithasol Cymru:**
   a. Gweithio gyda Ofgem i:
      i. ddiweddu'r cynnydd annheg mewn taliadau sefydlog ar filiau trydan oherwydd bod cyflenwyr ynni wedi chwalu;
      ii. tynnu pob taliad sefydlog o dariff blaendalu; a
      iii. gorfodi cyflenwyr ynni i roi blaenoriaeth i osod mesuryddion deallus yn lle mesuryddion blaendalu pan mae tenant yn symud allan a chyn i denant newydd symud i mewn lle mae cymdeithas tai yn gwneud cais am hynny.
   b. Helpu tenantiaid ar fesurau blaendalu sy'n talu mwy am eu hynni o gymharu â'r defnyddwyr hynny ar ddebyd uniongyrchol, drwy ailgyflwyno cap pris diogelu neu fesurau eraill i roi help cyn y gaeaf hwn.

*"Mae darparwyr yn ymwybodol iawn fod y pwysau ar eu gwasanaethau yn debyg o barhau ymhell tu hwnt i fis Mawrth 2023"*

3. **Ymestyn y warant pris ynni ar gyfer darparwyr gofal a chymorth i ddwy flynedd**
   Er y croesewir y cymorth a ymrwymwyd hyd yma drwy'r Cynllun Cymorth Biliau Ynni, mae darparwyr yn ymwybodol iawn fod y pwysau ar eu gwasanaethau yn debyg o barhau ymhell tu hwnt i fis Mawrth 2023. Mae'n rhaid aros i weld os bydd y cymorth hwn yn ddigon ar gyfer yr holl gynnydd mewn prisiau ynni, neu os bydd unrhyw ddiffyg y mae'n rhaid i'r darparydd neu'r preswylydd ei lenwi.

## Argymhellion i Lywodraeth Cymru

***Bydd Cartrefi Cymunedol Cymru yn ysgrifennu at Jane Hutt, Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol , i gynnig syniadau a fyddai'n helpu Llywodraeth Cymru i ddarparu cymorth i denantiaid tai cymdeithasol Cymru ar yr amser anodd hwn.***

1. **Gweithio gyda chymdeithasau tai i dargedu cymorth at y rhai sydd fwyaf ei angen:** Ar gyfer y rhai a'i cafodd, bu'r Grant Caledi Tenantiaeth yn rhaff bywyd wnaeth eu helpu gyda dyledion sylweddol cysylltiedig â Covid-19. Fodd bynnag, roedd heriau gyda chyflenwi yn golygu mai dim ond ychydig o denantiaid tai cymdeithasol gafodd y budd-dal. Rydym i gyd yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddysgu gwersi o'r Grant Caledi Tenantiaeth er mwyn gweithio mewn partneriaeth gyda chymdeithasau tai a sicrhau y caiff cymorth ei dargedu at y rhai sydd â'r angen mwyaf amdano.

2. **Gweithio gyda Ofgem i ddatblygu cynigion ar gyfer tariff cymdeithasol biliau ynni:** Byddai'r tariff cymdeithasol – a ddylai yn ddelfrydol fod yn ei le erbyn gaeaf 2022 – yn cynnig ynni ar bris is i'r rhai mewn tlodi tanwydd. Byddai cyflenwyr yn cael eu gorfodi i gynnig help wedi ei dargedu at y rhai a fyddai'n gymwys, a bod talu am hynny drwy filiau ynni uwch i'r rhai a all fforddio hynny, trethiant neu fenthyca gan y llywodraeth.